


**RUNNING THE LINES – CYNLLUN GWERS**

| | |
|---|---|
| **Hyd y ffilm:** | 10 munud |
| **Hyd y sesiwn a gynghorir:** | 30 i 50 munud |
| **Rhyddhawyd y ffilm:** | Mehefin 2019 |
| **Oedran addas:** | 11+<br>Mae'n cynnwys cyfeiriadau at gymryd cyffuriau, alcohol, gwerthu cyffuriau, trais a bygythiadau trais. Mae'n cynnwys rhai golygfeydd y gallent beri gofid i wylwyr. |
| **Crynodeb:** | Mae ffilm Fearless, 'Running the Lines', yn codi ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae gangiau cyffuriau 'llinellau sirol' yn camfanteisio ar bobl ifanc er mwyn gwerthu cyffuriau. Mae'r stori yn dilyn Evan, a gaiff ei ddenu, ei gamfanteisio a'i fygwth i gludo cyffuriau ar gyfer gang troseddu cyfundrefnol o Lundain. |
| **Dolen i'r ffilm:** | Ewch i sianel YouTube FearlessORG<br>Prif ffilm: https://youtu.be/CiSvXS34xfo<br>Stori Evan : https://youtu.be/75s6lKRvjBM<br>Stori Jamie : https://youtu.be/qf_Eah0br3o |
| **Dolenni/deunyddiau ychwanegol:** | Trowch at https://www.fearless.org/en/professionals am ddolenni ac adnoddau ychwanegol, gan gynnwys Adnodd Addysgol Llinellau Sirol Fearless<br>Trowch at https://www.knifefree.co.uk/<br>Darllenwch ganllaw arfer Cymru Gyfan – Diogelu Plant rhag Camfanteisio Troseddol, rhan o weithdrefnau diogelu Cymru |

**Neges i gloi a manteisio ar help:**
Mae Llinellau Sirol yn ymwneud â mwy na chludo cyffuriau yn unig. Mae'n cynnwys meithrin perthynas amhriodol, camfanteisio a thrais. *Nid eich bai chi fyth yw camfanteisio.* Byddwch Heb ofn a chodwch eich llais os ydych yn gwybod ei fod yn digwydd i chi neu'ch ffrindiau.

Ffoniwch yr heddlu ar 101 neu os ydynt mewn perygl, ffoniwch 999. Neu, gallech siarad gydag oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddynt fel rhiant, aelod o'r teulu, gofalwr, athro, gweithiwr ieuenctid, iechyd neu gymdeithasol. Os nad ydych yn dymuno dweud pwy ydych chi, gallwch droi at

Copyright - Fearless / Crimestoppers Trust.

https://www.fearless.org/en/anonymous neu ffonio Crimestoppers ar 0800 555 111. Rhestrir sefydliadau eraill hefyd dan y dolenni defnyddiol ar Fearless.org, lle y gallwch gael help pellach.

**Myfyrio am "Running the Lines"**

1. **Sut oeddech chi'n teimlo wrth wylio 'Running The lines'?**

*Nodiadau: efallai y bydd hi'n werth gofyn a oeddent yn credu bod pethau fel hynny yn digwydd lle y maen nhw'n byw? Yn eu barn nhw, pam bod gangiau cyffuriau yn recriwtio pobl ifanc er mwyn eu helpu i symud a gwerthu cyffuriau?*

2. **Yn eich barn chi, pam oedd Evan wedi dechrau cael cyswllt gyda'r gang?**

*Nodiadau: Mae Evan yn fachgen cyffredin heb unrhyw gysylltiadau blaenorol gyda throseddu, sy'n cael ei ddenu i Linellau Sirol ac mae'n mynd i drafferthion. *Gallai hyn ddigwydd i unrhyw un*. Mae Tyler yn meithrin perthynas ag ef, ac mae'n gyfeillgar ar y dechrau, gan gynnig swydd, oriawr ac esgidiau ymarfer newydd iddo. Mae Tyler yn rhan o grŵp troseddu cyfundrefnol, a reolir gan droseddwyr o Lundain sy'n rhedeg 'llinell sirol' i Gymru.*

3. **Yn eich barn chi, pa droseddau y gallent fod wedi digwydd yn ystod y ffilm?**

*Nodiadau: Mae'r ffilm yn dangos sawl math o drosedd – bod ym meddiant cyffuriau, bod ym meddiant cyffuriau gyda'r bwriad o'u cyflenwi, bod ym meddiant arf ymosodol. Camfanteisio a masnachu dan y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern. Trais – Affráe, Ymosodiad, Ymgais i Glwyfo gyda'r bwriad o achosi Niwed Corfforol Difrifol, Camfanteisio/cam-drin rhywiol o bosibl hefyd. Am ragor o wybodaeth am fathau o droseddau, trowch at y rhestr A-Z ar Fearless.org*

4. **Yn eich barn chi, ai dioddefwr neu gyflawnwr yw Evan?**

*Nodiadau: Ar y dechrau, mae Evan yn ymddangos yn hyderus, ac mae'n brolio am ei roddion, ond mae'n celu o ble y maen nhw wedi dod gan ei fod yn gwybod bod yr hyn y mae'n ei wneud yn anghywir. Mae Evan yn ymwneud â throseddu, ond mae'n ddioddefwr yn gyntaf oll – mae wedi cael ei ddenu, ei gamfanteisio, ei fygwth a'i ddefnyddio a'i reoli gan y gang troseddu cyfundrefnol.*

5. **Pa arwyddion y mae Jamie yn eu gweld, sy'n peri iddo ofidio am Evan?**

*Nodiadau: Jamie yw ffrind gorau Evan, ac mae'n dyst i ddigwyddiadau. Mae Jamie yn gofidio'n fawr am y newidiadau yn ei ffrind a'r hyn y gallai fod yn cael cyswllt ag ef. Mae'n anfon neges destun ato er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn iawn ac mae'n ei ddilyn. A fyddai modd iddo wneud unrhyw beth arall yn eich barn chi? Beth fyddech chi'n ei wneud pe bai chi yn sefyllfa Jamie?*

6. **Yn eich barn chi, beth oedd yn digwydd gyda'r ferch ifanc (Sophie) yn y stryd gefn? Sut mae hi'n teimlo efallai?**

*Nodiadau: Nid ydym yn gwybod rhyw lawer am y ferch. Rydym yn gwybod bod cysylltiadau rhwng llinellau sirol a chamfanteisio ar ferched a bechgyn mewn ffordd rywiol, felly mae'n bosibl y rhoddwyd cyffuriau iddi er mwyn ei rheoli fel rhan o'r broses o gamfanteisio arni.*

7. **Sut oedd Evan yn teimlo am ei daith i Lundain ar y trên?**

Copyright - Fearless / Crimestoppers Trust.

*Nodiadau: Mae Evan yn gwybod bod yr hyn y mae'n ei wneud yn anghywir, ac yn erbyn y gyfraith. Efallai bod ofn mynd i Lundain arno er mwyn casglu cyffuriau gan ddieithriaid. Mae'n beth cyffredin i'r bobl yn y gangiau ymddwyn mewn ffordd dreisgar tuag at y bobl y maent yn camfanteisio arnynt; mae ofn a thrais yn rhan o'r camfanteisio.*

8. **Beth allai ddigwydd i Evan wrth iddo ddychwelyd i Gymru gyda'r cyffuriau?**

*Nodiadau: Gallai'r heddlu ei stopio ar y trên. Beth fyddai'n digwydd wedyn? Gallai rhywun o gang arall ymosod arno hefyd, gan gymryd y cyffuriau oddi arno. Pe bai rhywun yn dwyn y cyffuriau oddi ar Evan, byddai mewn dyled i'r gang nawr am yr hyn a ladratwyd. Byddai'n cael ei ddal mewn rhywbeth a elwir "caethiwed dyled" weithiau, sy'n golygu y byddai'n rhaid i Evan wneud unrhyw beth y byddai'r gang yn ei ddweud wrtho ac na fyddai hyd yn oed yn cael ei dalu am wneud hynny.*

9. **Yn eich barn chi, pwy yw'r unigolyn sy'n gorwedd ar y llawr yn y ffau gyffuriau?**

*Nodiadau: Rydym yn gweld rhywun sy'n gaeth i gyffuriau yn gorwedd ar y llawr. Gallai'r gang fod yn eu defnyddio er mwyn gwylio'r safle a hyd yn oed gwerthu cyffuriau ar eu rhan. Weithiau, bydd gangiau yn targedu oedolion agored i niwed ac yn cymryd drosodd eu cartref, a'r enw am hyn yw 'cogio' – byddant yn eu rheoli trwy gyfrwng cyffuriau ac ofn. Gallent fod yn agored i niwed gan gamfanteisio hefyd (gan gynnwys camfanteisio rhywiol), caethwasiaeth a masnachu.*

10. **Rydym yn gweld Evan yn tynnu cyllell allan o flaen Tyler, beth allai ddigwydd?**

*Nodiadau: Mae Tyler yn rhoi cyllell i Evan er mwyn diogelu ei hun (a'r cyffuriau) ond os byddwch chi'n cario cyllell, rydych chi'n fwy tebygol o fod yn ddioddefwr. Mae Evan wedi sylweddoli difrifoldeb ei sefyllfa ac mae'n teimlo'n ofnus, ac mae'n mynd i banig ac yn tynnu cyllell allan o flaen Tyler. Nid yw hyn yn effeithio arno o gwbl ac mae'n tynnu cyllell mwy fyth allan o flaen Evan, ac yn ei fygwth i beidio siarad â'r Heddlu. Gan ddibynnu ar yr amser sydd ar gael, gallech ystyried y mythau a'r cyfreithiau ynghylch cario cyllyll – gan nodi y gallai'r anaf lleiaf gan gyllell ladd rhywun.*

11. **Yn eich barn chi, sut mae Evan a Sophie yn teimlo pan fydd yr Heddlu yn dod i chwilio'r adeilad ac yn eu harestio?**

*Nodiadau: Er nad ydynt yn dymuno gweld yr heddlu efallai, mae'n ffordd allan iddynt a bydd help ar gael ar eu cyfer pan fydd yr heddlu yn dod i wybod eu bod wedi bod yn destun camfanteisio.*

12. **Sut fyddech chi'n teimlo pe baech chi yn sefyllfa Jamie? Beth fyddech chi'n ei wneud pe byddech chi neu rywun yr ydych yn eu hadnabod mewn perygl o ddioddef camfanteisio neu yn dioddef camfanteisio?**

*Nodiadau: pan fydd rhywun wedi cael eu denu ac wedi bod yn destun camfanteisio, mae'n anodd deall yr hyn sy'n digwydd. Yn aml, mae'n haws i eraill weld yr hyn sy'n digwydd. Gallech geisio siarad gyda'r unigolyn am yr hyn sy'n digwydd, neu fynegi eich pryderon gydag oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddynt.*

*Gallech ofyn hefyd a ydynt yn creu bod Jamie wedi adrodd am ei bryderon am Evan? Nid ydym yn gwybod, ond pe bai wedi adrodd amdanynt trwy*

Copyright - Fearless / Crimestoppers Trust.

*Crimestoppers neu Fearless.org, ni fyddai unrhyw un yn gwybod gan eich bod yn gwneud hynny mewn ffordd ddienw. Efallai y byddai'n werth ategu'r hyn y mae bod yn ddienw yn ei olygu, ynghyd ag addewid Fearless i'ch cadw yn ddienw.*

Ewch ati i ategu ffyrdd o adrodd: Ffoniwch yr heddlu ar 101 neu os ydynt mewn perygl, ffoniwch 999. Neu, gallech siarad gydag oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddynt fel rhiant, aelod o'r teulu, gofalwr, athro, gweithiwr ieuenctid, iechyd neu gymdeithasol. Os nad ydych yn dymuno dweud pwy ydych chi, gallwch droi at https://www.fearless.org/en/anonymous neu ffonio Crimestoppers ar 0800 555 111. Rhestrir sefydliadau eraill hefyd dan y dolenni defnyddiol ar Fearless.org, lle y gallwch gael help pellach.

**Gorffen y sesiwn:** Dylech gynnig tawelwch meddwl – mae nifer yr adroddiadau am bobl ifanc yng Nghymru sy'n cael cyswllt gyda Llinellau Sirol yn isel ac mae 99% o bobl ifanc yng Nghymru a Lloegr yn byw bywyd sy'n rhydd rhag cyllyll. Trwy gyfrwng y sesiwn hon, mawr obeithiwn y byddwch yn teimlo'n fwy gwybodus am arwyddion camfanteisio ac yn teimlo'n fwy hyderus i godi eich llais. Gofalwch am eich ffrindiau. Byddwch yn ddiogel. Byddwch heb ofn!

Copyright - Fearless / Crimestoppers Trust.